# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Mawrth, 25 Gorffennaf 2023

Lisa Evans

Neris Morgans

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Llun, 31 Gorffennaf 2023 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
   **Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

3. **Trafodaeth ar gynllunio a ffosffadau Dwr Cymru Welsh Water (DCWW) (Tudalennau 3 - 6)**

4. **Darparu Gwasanaeth y Gaeaf (Tudalennau 7 - 10)**

5. **Ystyried y cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor. (Tudalennau 11 - 20)**

6. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 21 - 28)**

7. **Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu (Tudalennau 29 - 32)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus**
**Weddill Aelodau'r Cygnor er gwybodaeth yn unig.**

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus** |
| **DYDDIAD:** | **31ain Gorffennaf 2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron/o bell trwy gynhadledd fideo** |
| **TEITL:** | **Trafodaeth ar gynllunio a ffosffadau Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cyflwyno Swyddogion o DCWW** |
| **Y RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | **Gofynnodd yr Aelodau i Swyddogion o DCWW gael eu gwahodd i'r Pwyllgor Craffu** |

**CEFNDIR:**

Rhyddhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyngor cynllunio interim ynghylch datblygu o fewn dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol yng Nghymru ym mis Ionawr 2021 (fe'i diweddarwyd ym mis Mai 2021 a Mehefin 2022). Diben y cyngor hwn oedd sicrhau, yn dilyn gwaith monitro cydymffurfiaeth wedi'i ddiweddaru o afon Teifi a oedd yn dioddef o fethiant ysbeidiol yng ngwaith monitro ei lefel Ffosffadau, na fyddai dim datblygiad pellach yn cael ei ganiatáu a allai gynyddu lefelau ffosffadau yn yr ACA afonol.

Mae lefelau ffosffadau uchel mewn dŵr wyneb yn arwain at ewtroffeiddio ein hafonydd. Mae ewtroffeiddio yn effeithio'n niweidiol ar ansawdd y dŵr a'r ecoleg. Yn ei hanfod mae'n newynu'r afon o ocsigen gan niweidio bywyd gwyllt a phlanhigion. Mae'r broblem yn gymhleth gyda llawer o ffactorau'n cyfrannu, mae un hyd o ddalgylch penodol yn wahanol i hyd arall o afon mewn dalgylch arall – ac mae'r atebion yr un mor gymhleth ac amlochrog.

Mae afonydd yn hanfodol i'n hiechyd, ein heconomi a'n lles yn ogystal ag ecoleg a bioamrywiaeth y sir.

**SEFYLLFA BRESENNOL:**

Maint dalgylch yr ACA ar draws Ceredigion yw 806km$^2$ sy'n cyfateb i 44.6% o gyfanswm arwynebedd tir y sir. Mae'n effeithio ar 3 o'n 6 phrif anheddiad, sy'n cynrychioli'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer twf yn y dyfodol sef Tregaron, Llandysul a Llanbedr Pont Steffan, (mae Castellnewydd Emlyn wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin) ac mae'n cyfyngu'n rhannol ar 4ydd anheddiad yng Ngheredigion; Aberteifi. Mae'r aneddiadau hyn yn cynnwys un o ddim ond 2 ardal twf rhanbarthol yn y sir fel y'i diffinnir yng Nghymru'r Dyfodol y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn dwyn y teitl 'Parth Twf Dyffryn Teifi' ac maent bellach yn annatblygadwy ar gyfer datblygiadau newydd sydd angen gollyngiadau dŵr gwastraff.

Fel awdurdod rydym yn arwain gyda'n partneriaid rhanbarthol ar ffrydiau gwaith a hwylusir gan y Bwrdd Rheoli Maethynnau i ddarparu atebion strategol drwy'r Cynllun Rheoli Maethynnau.

Er mwyn i DCWW ddeall eu cyfraniad at lwyth y ffosfforws i'r afonydd, ac i asesu unrhyw welliannau y gallai fod angen iddynt eu gwneud i'w gollyngiadau gwaith trin dŵr gwastraff, maent wedi diweddaru ac ail-galibro eu modelau ansawdd dŵr gan ddefnyddio offeryn safonol y rheoleiddiwr a'r diwydiant a elwir yn SAGIS. (System Gwybodaeth Ddaearyddol am Ddosbarthiad Ffynonellau). Roedd hwn yn ymarfer ar y cyd a gynhaliwyd ar y cyd â'u rheoleiddiwr amgylcheddol CNC.

Mae modelu SAGIS DCWW ar Afon Teifi (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023) yn dangos bod gwaith trin dŵr gwastraff yn cyfrannu 66% o'r ffosfforws yng nghorff dŵr yr ACA, gyda Gorlifoedd Storm Cyfun yn gyfrifol am 3%. Mae'r ffynonellau sy'n weddill wedi'u nodi fel defnydd tir gwledig a ffynonellau eraill sy'n cynnwys tanciau carthion preifat a dŵr ffo wyneb.

DCWW: Mae ein Maniffesto ar gyfer Afonydd yng Nghymru (Mawrth 2023) yn nodi bod dau gynllun ar Afon Teifi o fewn y Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer y cyfnod 2025 - 2030 (Cynllun Rheoli Asedau 8) wedi'u dwyn ymlaen i gyfnod Cynllun Rheoli Asedau 7 (2020 - 2025):

- Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanbedr Pont Steffan — Cynllun Rheoli Asedau 8 wedi'i ddwyn ymlaen
  Amcan: Lleihau ffosfforws a ollyngir o weithfeydd
  Dyddiad cwblhau disgwyliedig: Mawrth 2025
  Buddsoddiad: £1.3m
- Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanybydder — Cynllun Rheoli Asedau 8 wedi'i ddwyn ymlaen
  Amcan: Lleihau ffosfforws a ollyngir o weithfeydd
  Dyddiad cwblhau disgwyliedig: Mawrth 2025
  Buddsoddiad: £I'w gadarnhau

Ar gyfer cyfnod y Cynllun Rheoli Asedau 8 a thu hwnt yn ddiweddar mae DCWW wedi cyhoeddi cyfres o wybodaeth i gefnogi eu rhaglen fuddsoddi ffosfforws yn y dyfodol ar Afonydd ACA: Adroddiadau Dosbarthiad Ffynonellau | Dŵr Cymru Welsh Water (dwrcymru.com). Maent hefyd wedi ymrwymo i ychwanegu amod trwydded ffosfforws at bob un ond y lleiaf o'u gweithfeydd trin dŵr gwastraff yng Nghymru sy'n gollwng i Ardal Cadwraeth Arbennig yn eu Maniffesto ar gyfer Afonydd Mawrth 2023.

Mae swyddogion o DCWW wedi'u gwahodd i'r Pwyllgor Craffu i drafod eu cynlluniau parhaus ar gyfer lliniaru maethynnau ar gyfer ACA Teifi o ystyried eu dyletswydd Adran 6 drwy'r Rheoliadau Cynefinoedd o dan yr egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam** | Nac oes gan nad yw'r drafodaeth hon yn cynhyrchu nac yn datblygu polisi. |
| | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | |
| | **Integreiddio:** | |

**Cydweithio:**

**Cynnwys:**

**Atal:**

**ARGYMHELLIAD:**

**Dim argymhellion ffurfiol, er gwybodaeth yn unig.**

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

**Er Gwybodaeth yn Unig**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Dr Sarah Groves-Phillips |
| **Swydd:** | Rheolwr Gwasanaeth Polisi Cynllunio |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 10/07/2023 |
| **Acronymau:** | DCWW - Dŵr Cymru Welsh Water |
| | CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | ACA - Ardal Cadwraeth Arbennig |
| | SAGIS - System Gwybodaeth Ddaearyddol am Ddosbarthiad Ffynonellau |

DRAFT

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus |
| **DYDDIAD:** | 31 Gorffennaf 2023 |
| **LLEOLIAD:** | Siambr y Cyngor, Penmorfa a Zoom |
| **TEITL:** | Darparu Gwasanaeth y Gaeaf |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ynglŷn â pholisi a darpariaeth gwasanaeth y gaeaf |
| **Y RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH** | Cynhaliwyd y diweddariad/adolygiad blaenorol yn 2018 a bwriad y Gwasanaeth yw cynnal adolygiad pellach mewn pryd ar gyfer tymor y gaeaf 24/25. |
| **CEFNDIR** | Diwygiwyd y sail statudol ar gyfer Gwasanaeth y Gaeaf gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn y Ddeddf Rheilffyrdd a Diogelwch Trafnidiaeth (2003) |

Ymestynnodd y ddeddfwriaeth hon ddyletswydd statudol awdurdodau priffyrdd i gynnal a chadw'r briffordd drwy fewnosod, ar ôl Adran 41(1) o Ddeddf Priffyrdd (1980):

*'(1A) In particular, a highway authority are under a duty to ensure, so far as is reasonably practicable, that safe passage along a highway is not endangered by snow or ice'.*

O ystyried maint yr adnoddau ariannol ac adnoddau eraill sy'n gysylltiedig â darparu Gwasanaeth y Gaeaf, nid yw'n cael ei ystyried yn rhesymol nac yn realistig:

Darparu'r gwasanaeth ar bob rhan o'r Rhwydwaith

neu

Sicrhau bod arwynebau rhedeg yn cael eu cadw'n rhydd o rew neu eira trwy'r amser, hyd yn oed ar y rhannau o'r rhwydwaith sydd wedi'u trin.

Mae’r adolygiadau amrywiol o Wasanaeth y Gaeaf dros amser, ers tua 2006, wedi canolbwyntio’n bennaf ar y matrics asesu a ddefnyddir i sgorio pob llwybr ac yn y pen draw sy’n pennu pa lwybrau, o ystyried y gyllideb sydd ar gael, sy’n cael eu trin ymlaen llaw cyn rhew a / neu eira a ragwelir.

Gelwir hyn yn driniaeth ragofalus ac mae'n rhagataliol.

Mae llwybrau eraill nad ydynt yn cael triniaeth ragataliol yn cael eu trin yn adweithiol ar ôl i'r llwybrau rhagofalus gael eu trin a dim ond pan fydd adnoddau'n caniatáu.

O dan fatrics asesu 2014, pennwyd hyd y rhwydwaith a oedd yn destun triniaeth ymlaen llaw ar 437.0km, ac felly er mwyn cynnal hyd y driniaeth ymlaen llaw hon oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd gan faint y fflyd cynnal a chadw dros y gaeaf ac offer a pheiriannau ategol eraill, y torbwynt ar gyfer triniaeth ymlaen llaw o dan fatrics asesu 2018 oedd +3, sy'n cyfateb i driniaeth ymlaen llaw o 427.9km.

Roedd yr adolygiad a gynhaliwyd yn 2018 mewn ymateb i aelodau’r pwyllgor yn gofyn i swyddogion adolygu’r fethodoleg asesu a ddefnyddiwyd i sgorio pob llwybr er mwyn caniatáu ystyriaeth/cydnabyddiaeth o’r effaith y mae uchder yn ei chael ar dymheredd a hinsawdd.

Oherwydd buddsoddiad mewn technoleg taenu halen a cherbydau newydd ers 2014, cynhaliodd swyddogion asesiad hefyd i ganfod a oedd lle i gynyddu hyd y rhwydwaith y gellid ei drin ymlaen llaw gan ddefnyddio’r fflyd sydd ar gael heb fod angen buddsoddiad cyfalaf ychwanegol/cynyddol.

Nododd yr asesiad pellach hwn fod gallu ar gael o fewn y fflyd bresennol i gynyddu hyd y rhwydwaith a allai fod yn destun triniaeth ymlaen llaw o lefel 2014 26.1km, a fyddai’n caniatáu i’r driniaeth ymlaen llaw gael ei gosod ar +2.

Gwnaed hyn a chymeradwywyd y newidiadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu ar 10fed Mai 2018 ac yna fe’u cadarnhawyd gan y Cabinet ar 04ydd Medi 2018.

DRAFT

Bydd angen i'r diweddariad arfaethedig cyn Tymor y Gaeaf 24/25 alinio â'r *Cod Ymarfer* newydd cymeradwy *ar gyfer Polisi Arolygu Diogelwch Priffyrdd a Chywiro Diffygion.*

Ni fwriedir cyflwyno dim newidiadau i'r matrics asesu y cytunwyd arno, ond cynhelir ailasesiad o'r sgorau a briodolir i'r llwybrau unigol.

Cynigir hefyd cynnwys dadansoddiad mwy cywir, wedi'i arwain gan ddata, o feini prawf y risg mewn perthynas â hierarchaeth ffyrdd ac ystadegau damweiniau.

Bwriedir cynnal yr adolygiad yn y misoedd nesaf, a rhoi adroddiad ynghylch canfyddiadau'r adolygiad mwy cynhwysfawr hwn i'r Pwyllgor i'w hystyried yn gynnar yn 2024.

Bydd hyd cyffredinol y rhwydwaith sy'n cael ei drin ymlaen llaw yn cael ei bennu yn y pen draw gan y gyllideb sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth.

Bydd adolygiad 2024 felly hefyd yn craffu ar y pwysau cyllidebol hyn er mwyn pennu pa lefel o wasanaeth y gellir ei darparu yn nhymor gaeaf 2024/25, gyda thri chanlyniad posibl:

1. Cynnal y lefel bresennol o ddarpariaeth gwasanaeth dros y gaeaf a allai olygu bod angen clustnodi cyllideb ychwanegol
2. Cynyddu'r lefel o ddarpariaeth gwasanaeth dros y gaeaf a fydd yn gofyn am glustnodi cyllideb ychwanegol
3. Lleihau'r lefel o ddarpariaeth gwasanaeth dros y gaeaf er mwyn aros o fewn y gyllideb bresennol a ddarparwyd.

| | | |
|---|---|---|
| | **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam** | Nid ar hyn o bryd Mae'r adroddiad er gwybodaeth yn unig |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** | |
| **Argymhelliad:** | **Argymhellir** bod aelodau'r *Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus* yn gofyn i swyddogion gynnal | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | adolygiad cynhwysfawr o Wasanaeth y Gaeaf yn barod ar gyfer Tymor y Gaeaf 2024/25. |
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | Galluogi i adolygiad o ddarpariaeth Gwasanaeth y Cyngor dros y Gaeaf gael ei gynnal. |
| **Enw Cyswllt** | Phil Jones |
| **Swydd** | Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Priffyrdd, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 22 Mehefin 2023 |

DRAFT

## Cyngor Sir CEREDIGION

**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

**DYDDIAD:** 31 Gorffennaf 2023

**LLEOLIAD:** Siambr y Cyngor, Penmorfa

**TEITL:** Ystyried y cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor.

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** I'w ystyried

**Y RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2023 i ystyried y Ffioedd a'r Costau ar gyfer 2023/24, cynigiwyd y dylid ystyried yr opsiwn o ganiatáu 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym mhob un o Feysydd Parcio Talu ac Arddangos Cyngor Sir Ceredigion.

**CEFNDIR:**

**1.1 Gwybodaeth gyffredinol am feysydd parcio**

Mae'r Cyngor yn rhedeg 21 o Feysydd Parcio Talu ac Arddangos ar draws Ceredigion ac mae'r meysydd parcio hyn yn Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Ceinewydd, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd parcio arosiadau byr yn unig, meysydd parcio sy'n caniatáu arosiadau byr ac arosiadau hir, a meysydd parcio arosiadau hir yn unig. Hefyd, ceir meysydd parcio sy'n caniatáu parcio drwy'r flwyddyn gyfan lle codir tâl rhwng 8am a 6pm a meysydd parcio tymhorol lle codir tâl rhwng 8am a 10pm o 1 Mawrth i 31 Hydref bob blwyddyn.

Mae manylion y rhain wedi'u crynhoi yn **Atodiad 1**.

Mae gan y cyhoedd y dewis a ydynt am ddefnyddio Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor neu a ydynt am ddefnyddio llefydd eraill i barcio gan gynnwys parcio rhad ac am ddim ar y stryd a pharcio oddi ar y stryd (y codir tâl amdano neu sydd ar gael yn rhad ac am ddim) a ddarperir gan eraill.

Yn gyffredinol, mae ffioedd a chostau Meysydd Parcio'r Cyngor yn cymharu'n ffafriol â'r hyn y mae awdurdodau lleol eraill yn ei godi. Er mwyn rhoi syniad i chi o'r sefyllfa, mae costau rhai tocynnau 2 awr a thocynnau 24 awr mewn meysydd parcio sy'n debyg i'w gilydd wedi'u nodi isod:

Tocynnau 2 awr

- Aberteifi / Aberaeron / Llanbedr Pont Steffan: £2.60
- Machynlleth: £2.50

- Aberystwyth a'r Meysydd Parcio Tymhorol yng Ngheredigion (Ceinewydd ac Aberaeron): £3.40
- Y Bermo ac Aberdyfi: £1.10 - £4.00
- Dinbych-y-pysgod: £2.00
- Llandudno: £1.70 - £2.70

Tocynnau 24 awr

- Aberteifi / Aberaeron / Llanbedr Pont Steffan: £4.60
- Machynlleth: £4.00
- Aberystwyth a'r Meysydd Parcio Tymhorol yng Ngheredigion (Ceinewydd ac Aberaeron): £6.00
- Y Bermo ac Aberdyfi: £6.60 (gaeaf) - £11.00 (haf)
- Dinbych-y-pysgod: £6.00
- Llandudno: £6.00 - £12.00

Er bod rhai unigolion neu grwpiau yn aml yn nodi bod cost parcio yn ffactor sylweddol sy'n effeithio ar nifer y bobl sy'n ymweld â threfi, a bod galwadau am gyflwyno parcio am ddim yn cael eu gwneud, mae adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 ynghylch "Asesu effaith taliadau meysydd parcio ar nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref" (https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150610-assessing-impact-car-parking-charges-town-centre-footfall-en.pdf) (dogfen Saesneg yn unig), yn dod i'r casgliad canlynol:

- *"The literature review and primary research indicated that car parking charges are only one of a number of factors at play in influencing footfall and town centre vitality.*
  (5.1.2, p.32)

- *Overall, this research has indicated that the following parking related factors are important determinants of people's behaviour in relation to town centres.*

  - *Availability of spaces*
  - *Restrictions on parking (i.e. how long people can park for)*
  - *Proximity of parking to intended destination*
  - *Traffic flow*
  - *Signage*
  - *Overall retail offering*
  - *Out of town retail offering*
  - *Out of town parking charges*
  - *Price of car parking*
  - *Security of car park*
  - *Incentives for parking*

  (5.1.2, p.32)

- *These factors are subject to ongoing changes, making it difficult to determine the extent to which they are responsible for changes in behaviour. Our survey also indicated that, while people did agree that*

*car parking charges affect their behaviour, convenience is also a critical factor. In addition, the accessibility of spaces, the number of spaces, and the proximity of parking to the town centre were all shown to be as important as cost.”*
(5.1.3, p.32)

**1.2 Y sefyllfa gynrychioliadol o ran tocynnau a werthwyd sy’n gysylltiedig â cherbydau o dan 3.5t (ceir, faniau a beiciau modur) ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos Cyngor Sir Ceredigion**

Mae rhaniad cynrychioliadol o’r tocynnau a werthwyd ar draws y meysydd parcio dros gyfnod o 12 mis wedi’i grynhoi yn **Nhabl 1** isod. Mae’r tabl yn dangos bod rhan fwyaf (61.39%) yr holl docynnau a werthwyd ar gyfer arosiadau hyd at 2 awr a bod iddynt werth ariannol (net) o £538,545 o dan brisiau 2023/24 sy’n cyfateb i 41.73% o gyfanswm yr incwm.

| **Math o docyn** | **Nifer y tocynnau a werthwyd** | **Canran o’r holl docynnau a werthwyd** | **Gwerth ariannol (net) – prisiau 23/24** |
|---|---|---|---|
| 1 awr | 124,206 | 29.24% | £219,259 |
| 2 awr | 136,607 | 32.15% | £319,287 |
| 3 awr | 55,491 | 13.06% | £175,128 |
| 24 awr | 104,398 | 24.57% | £517,133 |
| Wythnosol | 4,146 | 0.98% | £59,617 |
| **Cyfanswm** | **424,848** | 100% | **£1,290,423** |

**Tabl 1**. Dadansoddiad o’r tocynnau a werthwyd (cyfnod y data – 01/11/2021 – 31/10/22 – nid yw’r data yn cynnwys Llandysul a Tregaron gan na chodwyd tâl yn y meysydd parcio hyn yn ystod y cyfnod hwn)

**1.3 Y disgwyliadau o ran Cyllideb 2023/24**

Mae’r gyllideb yn disgwyl y bydd y meysydd parcio Talu ac Arddangos yn creu incwm o £1,581,000 (net) yn 2023/24. Serch hynny, yn seiliedig ar nifer y tocynnau a werthwyd yn hanesyddol, mae’n annhebygol y bydd y disgwyliad hwn o ran incwm yn cael ei wireddu, a rhagwelir diffyg o oddeutu £300,000 yn yr incwm. Yn 2022/23, roedd y diffyg yn £148,909 (net) a hynny’n seiliedig ar darged o £1,221,000 (net) o ran yr incwm.

**1.4 Y ddarpariaeth ar hyn o bryd o ran parcio am ddim yn y Meysydd Parcio Talu ac Arddangos**

Mae’r Cyngor eisoes yn darparu cyfnodau o barcio am ddim yn ei feysydd parcio Talu ac Arddangos ac, er y gallai’r Cyngor benderfynu codi tâl, nid ydyw’n codi tâl ar hyn o bryd o ran y canlynol:

- Rhwng 6pm ac 8am yn y meysydd parcio sydd ar agor drwy'r flwyddyn
- Rhwng 10pm ac 8am yn y meysydd parcio tymhorol:
- Rhwng 1 Tachwedd a 28/29 Chwefror bob blwyddyn yn y meysydd parcio tymhorol; nac ychwaith
- Ar y 3 dydd Sadwrn cyn y Nadolig bob blwyddyn.

Yn ogystal â chyfnodau o barcio am ddim, mae amrywiol docynnau tymor ar gael i'w defnyddio yn y Meysydd Parcio Talu ac Arddangos.

Mae'r rhain yn cynnig gwerth ardderchog am arian i'r rheiny sy'n dymuno defnyddio'r meysydd parcio hyn yn rheolaidd.

Mae'r canlynol yn rhoi syniad i chi o'r gost fesul diwrnod pan fydd rhywun yn prynu tocyn tymor am 7 diwrnod a 5 diwrnod yr wythnos.

Aberaeron / Aberteifi / Llanbedr Pont Steffan
£402 / 365 = £1.10
£402 / 260 = £1.55

Aberystwyth
£436 / 365 = £1.19
£436 / 260 = £1.68

**1.5 Y ddarpariaeth o ran parcio ar y stryd**

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn darparu cyfleoedd i barcio yn rhad ac am ddim am gyfnodau cyfyngedig ac i barcio heb gyfyngiadau ar y stryd ym mhob man lle mae'n rhedeg Meysydd Parcio Talu ac Arddangos.

Mae'r cyfleoedd i barcio am ddim yn amrywio rhwng arosiadau am gyfnodau cyfyngedig o 30 munud, 1 awr, 2 awr, 3 awr a 4 awr (yn gyffredinol rhwng 8am a 6pm a heb gyfyngiadau y tu hwnt i'r amseroedd hyn) a chyfnodau diderfyn yn ystod y dydd.

Mae hyn yn ychwanegol at y cilfannau penodedig ar gyfer deiliaid y Bathodyn Glas lle ceir cyfyngiadau amser.

**1.6 Effaith ariannol darparu parcio am ddim am 2 awr cyn 11am**

Mae **Tabl 2** isod yn rhoi crynodeb o'r tocynnau 1 awr a 2 awr a brynwyd cyn 11am ar draws Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor yn ystod y cyfnod dan sylw rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Pe byddai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, gallai arwain at golli incwm o hyd at £130,000 (net). Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar docynnau a werthwyd yn hanesyddol.

Serch hynny, nid yw hyn yn ystyried effeithiau posibl na fwriadwyd gan gynnwys:

- Y rheiny sydd ar hyn o bryd yn defnyddio'r meysydd parcio ac sy'n talu am barcio ar ôl 11am ond a fyddai'n newid eu harferion o ran ymweld fel y gallent elwa o'r ddarpariaeth rad ac am ddim. Byddai hyn yn arwain at golli rhagor o incwm y tu allan i'r cyfnodau lle cynigir cyflwyno parcio am ddim.

- Colli'r incwm a ddaw oddi wrth ymwelwyr sydd ar hyn o bryd yn aros mwy na 2 awr ond llai na 4 awr a fyddai'n newid eu harferion o ran ymweld fel y gallent elwa o'r ddarpariaeth am ddim. Mae'n bosib y byddent yn dewis peidio â thalu i ymestyn eu hamseroedd ymweld.

- Colli'r incwm a ddaw oddi wrth ymwelwyr sydd ar hyn o bryd yn aros mwy na 2 awr ond llai na 4 awr e.e. byddai rhywun sy'n parcio ym Maesyrafon am 9am ac sy'n dymuno aros am 4 awr ar hyn o bryd yn talu am docyn 24 awr sy'n costio £6; fodd bynnag, o dan y cynnig diwygiedig, ni fyddai ond yn rhaid iddynt brynu tocyn am 2 awr (o 11am ymlaen), a byddai hynny'n arwain at golli £2.60, swm sydd heb ei gynnwys yn yr hyn a amcangyfrifir.

- Colli'r incwm a ddaw oddi wrth ymwelwyr sydd ar hyn o bryd yn aros mwy na 4 awr a fyddai'n newid eu harferion o ran ymweld fel y gallent elwa o'r ddarpariaeth am ddim, ac a fyddai'n dewis peidio â thalu i ymestyn eu hamseroedd ymweld y tu hwnt i'r amseroedd a nodir uchod, gan arwain at golli £2.60, swm na fyddai'n cael ei ystyried fel incwm a gollwyd yn yr hyn a amcangyfrifir yn **Nhabl 2**.

Felly, mae disgwyl i'r effaith ariannol fod hyd yn oed yn fwy sylweddol.

| Amser | 1 awr | Gwerth (net) | 2 awr | Gwerth (net) | Cyfanswm (net) |
|---|---|---|---|---|---|
| 8am | 3,396 | £5,972.33 | 2,162 | £4,929.00 | **£10,901.33** |
| 9am | 11,140 | £19,597.66 | 10,170 | £23,091.67 | **£42,689.33** |
| 10am | 18,037 | £31,735.58 | 19,529 | £45,005.50 | **£76,741.08** |
| | | | | | **£130,331.75** |

**Tabl 2.** Nifer y tocynnau a werthwyd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 o dan brisiau 23/24 *(ac eithrio Llandysul a Thregaron lle na chodwyd tâl yn ystod y cyfnod hwn)*

Pe byddai'r cynnig yn cael ei argymell, byddai disgwyl i'r Pwyllgor nodi sut y gellid ariannu'r cynnig yn llawn (Dylid nodi, pe byddai'r trefniadau presennol yn Llandysul a Thregaron yn parhau y byddai angen, o bosib, nodi cyfanswm o hyd at £170,000 (net)).

Byddai angen i'r cynnig gael ei ariannu drwy un o'r canlynol:

- nodi gostyngiadau yn y cyllidebau gwariant ar gyfer swyddogaethau a ddarperir gan y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol, a fydd yn arwain at ostyngiad yn lefelau'r gwasanaethau a ddarperir a/neu ostyngiadau yn y lefelau staffio

- nodi gostyngiadau yn y cyllidebau gwariant ar gyfer swyddogaethau a ddarperir gan feysydd gwasanaeth eraill y Cyngor ynghyd ag adlinio'r gyllideb, a fydd yn arwain at ostyngiad yn lefelau'r gwasanaethau a ddarperir a/neu ostyngiadau yn y lefelau staffio
- cynnydd ychwanegol o 0.325% yn Nhreth y Cyngor sydd tu hwnt i'r hyn a gynigir ar gyfer 24/25 er mwyn sicrhau hyd at £130,000 (net) ar gyfer y cynnig ar gyfer parcio am ddim am 2 awr a phe byddai'r Pwyllgor hefyd yn argymell cadw'r ddarpariaeth rad ac am ddim yn Llandysul a Thregaron y tu hwnt i 23/24, byddai angen cynnydd o 0.425% i sicrhau hyd at £170,000 (net).

Yn fwy cyffredinol, yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, ac o ystyried y pwysau difrifol ar y modd y darperir ystod eang o wasanaethau statudol a rheng flaen, yn ogystal â'r argyfwng costau byw sydd wedi golygu cynnydd dirfawr yn nifer y teuluoedd sy'n dibynnu ar fanciau bwyd ym mhob rhan o'r sir, byddai angen ystyried pa mor briodol fyddai defnyddio arian cyhoeddus i sybsydeiddio gwasanaeth dewisol pan fo dewisiadau eraill ar gael.

**1.7 Ystyriaethau ymarferol**

Yn ogystal â'r goblygiadau ariannol, ceir rhai ystyriaethau ymarferol a fydd hefyd yn costio arian. Mae'r ystyriaethau hyn fel a ganlyn:

- Byddai angen newid meddalwedd y peiriannau talu ac arddangos presennol er mwyn rhoi'r ddarpariaeth ar waith. Byddai cost o oddeutu £5,000 yn gysylltiedig â hyn.

- Byddai angen ystyried yr effaith ar arbedion effeithlonrwydd sy'n ymwneud â gorfodi cyfyngiadau parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd – mae'r patrolau presennol yn cyfuno'r gwaith gorfodi ar y stryd ac oddi ar y stryd. Pe byddai'r cynnig hwn yn dod i rym, byddai'n rhaid i'r ymweliadau â'r trefi / lleoliadau cyn 11am gael eu hailadrodd yn y prynhawn fel y gellid monitro cydymffurfiaeth yn y meysydd parcio a byddai hyn yn arwain at y canlynol:

    - Gostyngiad yn nifer yr achosion o fonitro mewn meysydd parcio gyda'r posibilrwydd y bydd llai o orfodi yn golygu y bydd llai o gydymffurfio ac yn sgil hynny llai o incwm.
    - Gostyngiad yn nifer yr ymweliadau â lleoliadau eraill lle nad oes meysydd parcio.
    - Mwy o gostau teithio am y bydd angen dychwelyd i'r lleoliadau dan sylw i fonitro'r meysydd parcio.

- Gan ddibynnu ar union fanylion unrhyw gynnig sy'n mynd rhagddo, efallai y bydd angen gwneud newidiadau i'r Gorchymyn Parcio Oddi ar y Stryd. Pe byddai angen gwneud hyn, byddai angen i'r broses gynnwys proses ymgynghori ffurfiol gan gynnwys hysbysiadau cyhoeddus a'r costau sy'n gysylltiedig â hyn. Gallai'r newidiadau i'r gorchmynion hyn gymryd hyd at 6 –18 mis i'w cyflwyno a gallai hyn gostio tua £5,000.
- Gan ddibynnu ar union fanylion unrhyw gynnig sy'n mynd rhagddo, efallai y bydd angen gwneud newidiadau i'r arwyddion wrth y mynedfeydd i'r meysydd

parcio ac o fewn y meysydd parcio. Byddai cost o ryw £15,000 yn gysylltiedig â hyn.

**1.8 Ystyriaethau eraill**

Yn ogystal â'r ystyriaethau a nodwyd eisoes, mae yna rai ystyriaethau eraill o ran y cynnig gan gynnwys y canlynol:

- Byddai'n rhaid ystyried a ydy'r cynnig yn cyd-fynd â'r ffaith bod y Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd byd-eang (http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/B_RHYBUDD%20GYNNIG%20-%20NOTICE%20OF%20MOTION%20-%20CYNGOR%20-%20COUNCIL%2005.03.20.pdf) gan y gallai'r cynnig gael ei weld fel petai'n annog pobl i ddefnyddio cerbydau preifat.

- O dan y trefniadau presennol ym Maes Parcio Stryd y Farchnad, Llanbedr Pont Steffan, mae archfarchnad Sainsbury yn rhoi ad-daliad am y costau parcio i bobl sy'n gwario swm penodol o arian wrth siopa yn yr archfarchnad. Gallai unrhyw ddarpariaeth rad ac am ddim yn y maes parcio hwn arwain at arbediad ariannol i fusnes preifat ac efallai y byddai rhai yn ystyried ein bod yn sybsideiddio incwm i fusnes preifat.

**1.9 Opsiynau posibl eraill**

Ymhlith yr opsiynau posibl eraill y gellid eu hystyried y mae newid yr oriau codi tâl ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor fel eu bod yn dechrau am 9am neu 10am. Byddai hyn felly yn darparu 1 neu 2 awr o barcio rhad ac am ddim o gymharu â'r trefniadau presennol ar gyfer codi tâl. Byddai angen canfod rhwng £11,000 (9am) a £53,500 (10am) i ariannu'r cynnig amgen hwn. Byddai'r cynnig hwn yn fwy syml ac yn fwy clir i'w roi ar waith.

**1.10 Casgliad**

Gall parcio fod yn fater emosiynol a phroffil uchel sy'n arwain at lawer o drafod a sylwadau.

Un farn boblogaidd yw bod parcio am ddim yn rhywbeth cadarnhaol a'i fod yn arwain at fwy o ymwelwyr a llewyrch economaidd.

Fodd bynnag, ymddengys nad oes fawr ddim tystiolaeth bendant i gefnogi'r farn hon ac mae adroddiadau (e.e. adroddiad *"Asesu effaith taliadau meysydd parcio ar nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref"* Llywodraeth Cymru) wedi dangos bod nifer o ffactorau yn dylanwadu ar y mannau y mae pobl yn ymweld â nhw, pam eu bod yn mynd i'r mannau hyn a pha mor aml y bydd rhywun yn ymweld â lleoliad penodol.

Er efallai y byddai darparu mwy o barcio am ddim yn cael ei groesawu, nid yw hi mor glir pa fuddion pendant fyddai'n cael eu sicrhau o wneud hynny.

Mae’r incwm y mae’r Meysydd Parcio Talu ac Arddangos yn ei greu yn gwneud cyfraniad mawr i’r gyllideb sy’n cael ei ddefnyddio i gynnal a chadw a rheoli’r meysydd parcio yn barhaus, ynghyd â darparu gwasanaethau rheng flaen a gwasanaethau eraill sy’n gysylltiedig â hynny.

Byddai goblygiadau ariannol cynnig 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos Cyngor Sir Ceredigion yn fawr a byddai’n debygol o fod tua £130,000 (net) y flwyddyn.

Mae’r gwasanaeth yn archwilio cyfleoedd ac opsiynau i ddatblygu ymhellach ar bortffolio’r Cyngor o ran Meysydd Parcio Talu ac Arddangos a’r bwriad yw cyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i’r Pwyllgor hwn yn ddiweddarach yn 2023/24.

| | | |
|---|---|---|
| | **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi’i gwblhau? Os nad oes, esboniwch pam** | Yn dilyn cais gan Aelodau’r Pwyllgor am adroddiad ynghylch y mater hwn, gofynnir iddynt ystyried yr adroddiad. |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL:** | **Crynodeb:** Ddim yn berthnasol<br>**Hirdymor:** Ddim yn berthnasol<br>**Integreiddio:** Ddim yn berthnasol<br>**Cydweithio:** Ddim yn berthnasol<br>**Cynnwys:** Ddim yn berthnasol<br>**Atal:** Ddim yn berthnasol | |

**ARGYMHELLIAD:** Bod y Pwyllgor Craffu yn nodi cynnwys yr adroddiad

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:** Ddim yn berthnasol

| | |
|---|---|
| **Enwau cyswllt:** | Gerwyn Jones<br>Katy Spain |
| **Swyddi:** | Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Amgylcheddol<br>Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Trafnidiaeth |

**Atodiad 1 – Cyngor Sir Ceredigion - Crynodeb o'r Meysydd Parcio Talu ac Arddangos**

| Lleoliad | Enw'r Maes Parcio | Math | Cyfnod codi tâl – diwrnodau | Cyfnod codi tâl - Oriau |
|---|---|---|---|---|
| Aberaeron | Traeth y Gogledd | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| | Traeth y De | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | 1 Mawrth – 31 Hydref | 8am – 10pm |
| | Ffordd y Gaer Isaf | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| Aberystwyth | Coedlan y Parc Isaf | Arhosiad Hir | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| | Maesyrafon | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| | Rhodfa Newydd | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | 1 Mawrth – 31 Hydref | 8am – 10pm |
| | Ffordd y Gogledd | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| | Coedlan y Parc | Arhosiad Hir | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| Aberteifi | Y Baddondy | Arhosiad Hir | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| | Cae'r Ffair | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| | Sgwâr Cae Glas | Arhosiad Byr (hyd at 3 awr) | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| | Mwldan | Arhosiad Hir | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| | Stryd y Cei | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| | Rhes Gloster / Llew Coch | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| Llanbedr Pont Steffan | Cwmins | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| | Stryd y Farchnad | Arhosiad Byr (hyd at 2 awr) | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| | Rookery | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | Pob diwrnod | 8am – 6pm |
| Llandysul | Rhes y Porth | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | Pob diwrnod<br>Noder – ni chodir tâl yn ystod 23/24 | 8am – 6pm |
| Ceinewydd | Ffordd yr Eglwys | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | 1 Mawrth – 31 Hydref | 8am – 10pm |
| | Stryd y Cware | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | 1 Mawrth – 31 Hydref | 8am – 10pm |
| Tregaron | Iard y Talbot | Arhosiad Byr ac Arhosiad Hir | Pob diwrnod<br>Noder – ni chodir tâl yn ystod 23/24 | 8am – 6pm |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 6

**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar Ddydd Iau, 22 Mehefin 2023**

**Presennol:** Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Marc Davies (Is-gadeirydd), Meirion Davies, Rhodri Evans, Chris James, Ann Bowen Morgan, John Roberts a Carl Worrall.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Wyn Evans, Hugh Hughes a Gareth Lloyd.

**Aelodau Cabinet yn bresennol:** Y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Gareth Davies a Keith Henson.

**Swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn bresennol:** Gavin Bown, Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth Cymru; Tim England, Rheolwr Gweithrediadau - Rheoli Llifogydd a Dŵr; Julian Barnes, Rheolwr Gweithrediadau Tir ac Asedau a Matthew Jenkins, Rheolwr Prosiect.

**Swyddogion yn bresennol:** Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Economi ac Adfywio; Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol; Phil Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Amgylcheddol; Beverley Hodgett, Rheolwr Gwasanaeth-Gwasanaethau Amgylchedd Lleol, Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am- 1.11pm)

**1 Ymddiheuriadau**

i. Ymddiheurodd y Cynghorwyr Gethin Davies, Sian Maehrlein a Clive Davies, Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill y Cyngor.

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

i. Datganodd y Cynghorydd Gareth Davies a Hugh Hughes fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 3.
ii. Datganodd y Cynghorydd Chris James fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 6, yn ystod diweddariad ar rwydwaith bysiau Ceredigion.
iii. Datganodd Lisa Evans  Swyddog Craffu a Safonau fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 6, yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol, yn ystod diweddariad ar rwydwaith bysiau Ceredigion.

3 **Erydu Arfordirol, Llifogydd a Newid Hinsawdd**

Croesawodd a diolchodd y Cadeirydd i Swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru am ddod i'r cyfarfod.

Eglurodd y Cynghorydd Keith Henson (Aelod y Cabinet dros Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon) taw pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd. Mae newid hinsawdd yn golygu y byddwn yn wynebu digwyddiadau tywydd mwy aml neu ddifrifol megis llifogydd, sychder a stormydd. Mae'r digwyddiadau hyn yn dwyn 'risgiau ffisegol' sy'n cael effaith uniongyrchol ar gymunedau ac y mae ganddynt y potensial i effeithio ar yr economi. Mae rhannau o arfordir Ceredigion yn dueddol o gael eu heffeithio gan erydu arfordirol a llifogydd, ac mae rhai cymunedau mewndirol mewn perygl o ddioddef llifogydd afonol a cholli tir gan gyrsiau dŵr.

Rhoddodd Phil Jones drosolwg o'r adroddiad. Esboniodd y gallai'r effeithiau fod yn bellgyrhaeddol, wrth i randdeiliaid wynebu canlyniadau a allai fygwth bywydau neu newid bywydau, gan effeithio ar sectorau mawr o'r Sir/Cyngor. Yn ogystal, gallai methu lleihau effeithiau newid hinsawdd arwain at ganlyniadau amgylcheddol, ariannol ac i enw da y Cyngor gan gynnwys ar ffurf cosbau ariannol am fethu cyflawni targedau Llywodraeth Cymru ynghylch rheoli carbon a bioamrywiaeth. Bydd effeithiau anuniongyrchol yn cynnwys newidiadau i'r pryfed, y plâu a'r clefydau y byddant yn cytrefu ac yn effeithio ar ein hamgylchedd. Yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol y rhain, bydd yr effeithiau ar amser staff a'r costau eraill o ddelio â'r rhain yn arwyddocaol. Mae colli brigdwf oherwydd Clefyd Coed Ynn eisoes yn arwain at ganlyniadau ar gyfer microhinsoddau lleol a bydd yn gwaethygu effeithiau newid hinsawdd ac yn cyfrannu atynt hefyd.

Cydnabyddir bod yn rhaid i ni arwain trwy esiampl a gwneud popeth y gallwn i leihau newid hinsawdd yn y dyfodol a mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ef, a'u lleihau. Rhaid datblygu a gweithredu strategaethau a mentrau polisi sy'n cynnwys elfennau ar gyfer cydnerthedd ecosystemau, gwelliannau bioamrywiaeth a chynlluniau lleihau llifogydd os ydym yn mynd i lwyddo i leihau ein hôl troed carbon a lleihau'r risg i'n prif seilwaith, ein hasedau, ein preswylwyr a'n cymunedau a'n tirlun.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r canlynol:

- Cyfrifoldebau Erydu Arfordirol a Llifogydd
  - Erydu arfordirol
  - Llifogydd Arfordirol ac Afonol
  - Cynllun Rheoli Traethlin 2
  - Monitro Traethau
- Cynlluniau a gefnogir gan grantiau Llywodraeth Cymru (LlC)
- Diweddariadau diweddaraf – Arfordirol a Afonol
- Erydu Arfordirol a Llifogydd
- Rheoli Carbon a Newid Hinsawdd – Sero Net
- Cynllun Gweithredu Sero Net

Esboniodd Gavin Bown fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am reoleiddio Dŵr Cymru, tra bod Dŵr Cymru yn gweithredu ac yn cynnal a chadw gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth. O ran y materion a godwyd yn y cyflwyniad, eglurodd fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu gwneud gwaith a chwenychir i gyrsiau dŵr i leihau risg, ond bod angen caniatâd ychwanegol i wneud gwaith draenio mewnol. O ran yr oedi y rhoddwyd gwybod amdano gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y gwaith sydd ei angen yng Nghapel Bangor a Thal-y-Bont, nid oedd y gwaith modelu gan WSP wedi dod i law eto i symud y gwaith yn ei flaen.

Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru flaenoriaeth i'w waith ar sail risg llifogydd i gymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd, sydd ynghyd â ffactorau eraill megis llifogydd afonydd a llifogydd arfordirol diweddar i sefydlu rhaglenni gwaith. Oherwydd y newid yn yr hinsawdd, roedd llifoedd brig uwch mewn afonydd a fflachlifoedd, a oedd yn anoddach eu rheoli ac ymateb iddynt. Yn ogystal, roedd yn her ymateb i'r cynnydd yn lefelau'r môr ac erydu arfordirol, a effeithiodd ar ardaloedd arfordirol a lleoedd o dreftadaeth a chynefinoedd arwyddocaol. Roedd tua 1 o bob 8 eiddo yng Nghymru mewn perygl o lifogydd ar hyn o bryd. Erbyn 2120, amcangyfrifir y byddai 22,000 o bobl mewn perygl o lifogydd o afonydd ar draws Canolbarth Cymru, cynnydd o 6000 o'r ffigurau cyfredol. Yn ogystal, byddai tua 4500 o bobl mewn perygl o lifogydd o'r môr yn 2120, cynnydd o 2000 o bobl.

Defnyddiwyd tystiolaeth o Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU: Crynodeb i Gymru gan Gyfoeth Naturiol Cymru i lywio gwaith ac i ddatblygu asesiad o risgiau newid hinsawdd. Cam allweddol wrth symud ymlaen oedd datblygu asesiad o risgiau newid hinsawdd drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. O ran rheoli perygl llifogydd, datblygwyd mapiau llifogydd i arwain datblygiad ac i gynorthwyo ymatebwyr ac roedd gwasanaeth rhybuddio am lifogydd ar gael ynghyd â rhybuddion byw rhag llifogydd, lefelau afonydd a'r môr. Roedd gwybodaeth am baratoi ac amddiffyn cymunedau rhag llifogydd ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhoddodd Matthew Jenkins ddiweddariad ar Arfarniad Risg Llifogydd Dyfi. Amlinellwyd y canlynol mewn cyflwyniad:

- Arfarniad o risg llifogydd Dyfi - diweddariad Cyngor Sir Ceredigion
- Ardal
- Cefndir a diweddariad (2010-2013 Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Gwaith wedi'i Ddiweddaru yr Achos Busnes Amlinellol)
- Risg llifogydd presennol T1000, Achosion o dorri a Chrynodeb
- Diweddariad ar yr Astudiaeth Sylfaen Tystiolaeth
- Gwaith parhaus, diweddariad Rhanddeiliaid a Rhanddeiliaid
- Achos Busnes Amlinellol Llanw Dyfi: Rhestr Hir- Llinell Amser

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion yn bresennol a'r Cynghorydd Keith Henson. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Mynegwyd pryderon ynghylch a fyddai cyllid grant yn cael ei golli oherwydd yr oedi cyn i Gyfoeth Naturiol Cymru gael y gwaith modelu gan

WSP i fwrw ymlaen â’r gwaith. Roedd y grant ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol a bu trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i ymestyn dyddiad cyflwyno’r adroddiad.

- Pe bai gwaith yn cael ei wneud mewn un maes, roedd pryderon y byddai hyn yn arwain at ganlyniadau heb eu cynllunio ac anfwriadol mewn mannau eraill. Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ystyriaeth i Strategaeth Risg Llifogydd Llywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys y newid yn yr hinsawdd ac a gafodd ei chynnwys ym mhroses benderfynu a chynlluniau Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Codwyd pryderon ynghylch rheoliadau’r Parth Perygl Nitradau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar y sector amaethyddiaeth yn fuan, ac a fyddai ffermydd ystâd y sir yn gallu bodloni’r gofynion. Byddai dull fesul cam o weithredu o ran ei roi ar waith, a byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffordd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei reoleiddio.
- Codwyd ansawdd y dŵr yn afon Aeron yn Aberaeron. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ofwat yn gyfrifol am reoleiddio cwmnïau dŵr a chymerwyd camau gorfodi yn unol â hynny. Roedd cyfarfodydd blynyddol gyda chwmnïau dŵr ar lefelau bwrdd, i gydnabod ac ysgogi gwelliannau, i amlygu pryderon ac i hysbysu am raglenni buddsoddi yn y dyfodol. Roedd gorlif carthffosiaeth cyfunol yn rhan allweddol o’r system garthffosiaeth i atal llifogydd. Roedd cwmnïau dŵr yn monitro o bell sy'n eu galluogi i fonitro gollyngiadau a gweithredu yn ôl yr angen.
- Bu Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â Thasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru, i gyflawni’r Rhaglen LIFE gwerth dros £9 miliwn i wella 4 afon yng Nghymru gan gynnwys afon Teifi.
- Mynegwyd pryderon bod diffyg arweiniad strategol gyda llifogydd ac erydu arfordirol a diffyg gweithredu. Ymdriniwyd ag adroddiadau cyhoeddedig ar lifogydd yn genedlaethol, cawsant eu hystyried yn ganolog a chawsant eu hanfon drwodd i'w gweithredu'n lleol. Oherwydd y diffyg cyllid, bu'n rhaid penderfynu yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol ble y dylai'r blaenoriaethau fod.
- Nodwyd bod y ddau gam cyntaf a gafodd eu dylunio a'u hadeiladu yn y Borth yn ateb â therfyn amser, a bod risg bob amser gan fod y traeth yn ddeinamig. Byddai gwaith modelu ac ymchwilio yn cael ei wneud i sicrhau na fyddai dim gwaith pellach yn cynyddu'r perygl o lifogydd mewn mannau eraill.
- Oherwydd oedi cyn cwblhau astudiaeth mewn perthynas â materion draenio yn y Borth, rhoddwyd sicrwydd bod cyllid grant OBC yn parhau ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.
- Roedd Rheoli Carbon a Newid Hinsawdd yn faes a oedd yn newid yn barhaus ac roedd swyddogion yn adolygu cynlluniau a chamau gweithredu yn gyson ac yn cyfarfod â'r Grid Cenedlaethol i drafod materion yn ymwneud â chapasiti. Amlygwyd bod y daith i Sero Net yn ofyniad ariannu mawr, a byddai angen gwneud llawer o benderfyniadau anodd.
- O ystyried bod afonydd mawr yn hanu o’r ucheldiroedd, roedd gweithio gyda thirfeddianwyr yn allweddol i sicrhau bod mesurau ataliol ar waith i helpu i arafu’r llif a gwella ansawdd yr afon.
- Mynegwyd pryderon nad oedd y gwaith diogelu ac atal a warantwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn Llanbadarn Fawr oedd i’w gwblhau o fewn 6

mis i’r llifogydd difrifol a effeithiodd ar ardaloedd yng ngogledd Ceredigion ym mis Mehefin 2012 wedi’i gwblhau eto a’i fod ar stop ar hyn o bryd. Achosodd yr oedi hwn bryderon sylweddol o ran iechyd meddwl a lles i drigolion, yn enwedig yn ystod cyfnodau o dywydd gwael. Roedd y rhesymau am yr oedi hwn yn cynnwys problemau gyda thirfeddianwyr, gallu i gwblhau'r gwaith a lefel y risg. Yn dibynnu ar sawl ffactor, gallai fod cyfle i CNC i ofyn i’r awdurdod lleol gwblhau'r gwaith yn Llanbadarn Fawr.

Oherwydd anawsterau technegol, nid oedd Tim England yn gallu rhannu cyflwyniad o'r gwaith yn Aberteifi. Byddai'r cyflwyniad a'r wybodaeth am Raglen LIFE yn cael eu hanfon ymlaen i'w rhannu â'r Aelodau.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau’r Pwyllgor, cytunwyd i nodi’r cynnydd sy’n cael ei sicrhau mewn perthynas â Chynlluniau Amddiffyn Afonol ac arfordirol a gwaith lliniaru er mwyn rhoi sylw i’r risgiau a achosir gan Newid Hinsawdd.

**4 Creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff**

Rhoddodd Rhodri Llwyd drosolwg o’r cefndir a'r sefyllfa bresennol o ran Strategaeth Rheoli Gwastraff Ceredigion. Roedd angen strategaeth newydd yn awr i amlinellu cyfeiriad y gwasanaeth at y dyfodol, gan roi sylw penodol i safleoedd gwastraff cartref y sir, y model nesaf ar gyfer casglu gwastraff wrth ymyl y ffordd a’r trefniadau ar gyfer gorsafoedd trosglwyddo gwastraff.

Y cynnig oedd y dylid creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff i oruchwylio’r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gwastraff Ceredigion. Byddai’r gweithgor hwn yn adrodd yn ôl i’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar adegau priodol. Gofynnir i’r Pwyllgor felly gymeradwyo’r canlynol:

(i) creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff i gynorthwyo â’r broses o ddod ag opsiynau rhesymol gerbron y system ddemocrataidd.
(ii) enwebu 5 Aelod o’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i gynrychioli’r Pwyllgor ar y Gweithgor gan sicrhau bod gan y grŵp gydbwysedd gwleidyddol a rhaniad trefol/gwledig priodol.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau’r Pwyllgor, cytunwyd i greu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff.

Cytunwyd y byddai’r canlynol yn cynrychioli’r Pwyllgor ar y Gweithgor:
1 Aelod Annibynnol (Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus- Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans ar hyn o bryd), 3 Aelod Plaid Cymru (Y Cynghorwyr Ann Bowen Morgan, Chris James a Carl Worrall) a 1 Aelod Democratiaid Rhyddfrydol (John Roberts).

Bu i’r Aelodau ganmol y Gwasanaeth Casglu Gwastraff am y gwelliannau a wnaed yn dilyn y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023.

**5 Y Gwasanaeth Rheoli Datblygu**

Rhoddodd Russell Hughes-Pickering ddiweddariad i’r Aelodau am y llwyth achosion ym maes cynllunio a gorfodi. Ym mis Rhagfyr 2022, cyflwynwyd adroddiad i’r Pwyllgor ynghylch y Gwasanaeth Rheoli Datblygu. Roedd yr

adroddiad yn canolbwyntio ar adolygiad Archwilio Cymru o'r Gwasanaeth Cynllunio yng Ngheredigion yn 2021 ac yn nodi 10 argymhelliad yn ymwneud â'r trefniadau llywodraethu a gwella capasiti'r gwasanaeth. Mewn ymateb i'r argymhellion hynny ynghylch y trefniadau llywodraethu, adroddwyd bod newidiadau sylweddol i'r Cyfansoddiad wedi'u cytuno gan gynnwys Cylch Gorchwyl, Gweithdrefnau Gweithredol, Codau Ymarfer a Phwerau Dirprwyedig newydd. Mewn ymateb i faterion ynghylch perfformiad, roedd yn rhaid edrych ar fynd i'r afael â materion ym mhedwar o brif feysydd y broses rheoli datblygu – dilysu, oedi o ran ymgyngoreion, ffosffadau a chapasiti staff i ddelio ag achosion. Rhoddwyd diweddariad am y sefyllfa bresennol o ran y pedwar prif faes.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r canlynol:
- Cyflwyniad
- Ceisiadau cynllunio
  - Llwyth achosion – y 24 mis diwethaf
  - Nifer yr achosion a benderfynwyd yn eu cylch
  - Y cyflymder y gwneir penderfyniadau
  - Llwyth achosion – ceisiadau cynllunio presennol
  - Targedau ar gyfer y dyfodol
- Gorfodi cynllunio
  - Achosion gorfodi - newydd – fesul blwyddyn
  - Dadansoddiad o'r llwyth achosion
  - Achosion gorfodi sydd heb eu datrys
  - Targedau ar gyfer y dyfodol
- Y diweddaraf am staff

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Russell Hughes-Pickering . Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:
- Byddai'r drefn o ddefnyddio Capita, cwmni a oedd yn cynnwys nifer o ganghennau, yn dod i ben yn fuan unwaith y byddai sylw wedi'i roi i'r ôl-groniad o achosion ac unwaith y byddai gan yr adran yr adnoddau i ddelio â'r achosion. Er bod defnyddio Capita ychydig yn rhatach, roedd manteision o gyflogi staff mewnol gan y byddent yn gyfarwydd â'r ardal a'r polisïau.
- Roedd y staff mewnol a Capita yn defnyddio'r un broses o wneud penderfyniadau.
- Awgrymwyd y dylid hyrwyddo llwyddiant y tîm gorfodi gan dynnu sylw at y ffaith bod camau gorfodi yn cael eu cymryd pan fo angen. Roedd materion gorfodi a'r ymateb iddynt yn amrywio o un achos i'r llall ac roedd y broses yn un faith.
- Roedd cyfle i ystyried y ffyrdd yr oedd y gweithwyr yn dymuno gweithio e.e. oriau hyblyg. Gan fod targed o 8 wythnos i brosesu achosion ym maes rheoli datblygu, gallai fod yn heriol cyrraedd y targed hwn pe byddai staff yn gweithio'n rhan amser.
- Awgrymwyd y gallai'r cyfathrebu rhwng y swyddogion a'r asiantaethau fod yn well. O ystyried llwyth gwaith y swyddogion, roedd cyfyngiadau yn bodoli o ran amser ond roedd hefyd ddyhead i wella'r cyfathrebu ac ansawdd y ceisiadau.

- Nid oedd problemau yn bodoli o ran y berthynas rhwng yr awdurdod lleol a CADW. Serch hynny, gallai'r penderfyniadau gymryd amser. Roedd hyn yn rhannol am nad oedd gan yr awdurdod lleol bellach swyddog treftadaeth arbenigol ond ar ôl penodi Swyddog Rheoli Datblygu Arbenigol, y gobaith oedd y byddai hyn yn gwella ac y byddai pwerau dirprwyedig yn cael eu rhoi.
- Pan fyddai Cyfansoddiad y Cyngor yn newid, cytunwyd y byddai'r Aelodau yn cael gwybod ar e-bost pan fyddai ceisiadau yn eu wardiau yn dod i law. Byddai hyn yn caniatáu iddynt fod yn rhan o'r broses o'r dechrau'n deg. Cyfrifoldeb yr Aelodau oedd sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am bob cais. Anogwyd yr Aelodau a'r swyddogion i drafod yr achosion gyda'i gilydd, yn enwedig os byddai'r cais yn un dadleuol i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r sefyllfa.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

**6 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion**

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2023.

**Materion yn codi:** Wrth ymateb i gwestiwn am rwydwaith bysiau Ceredigion, esboniodd y Cynghorydd Keith Henson fod Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd wedi cyhoeddi Cronfa Bontio ar gyfer Bysiau yn ddiweddar a oedd yn werth £46 miliwn. Hefyd, roedd proses gaffael ar y gweill ar hyn o bryd o fewn yr awdurdod lleol.

**7 Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu**

Cytunwyd nodi cynnwys y Flaen raglen Waith a gyflwynwyd.

**8 Unrhyw Fusnes Arall**

i. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn falch bod swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn y gwahoddiad i ddod i'r cyfarfod heddiw. Y gobaith oedd y byddai cynrychiolwyr o Dŵr Cymru yn derbyn y gwahoddiad i ddod i'r cyfarfod ym mis Gorffennaf.
ii. Mynegodd yr Aelodau eu hanfodlonrwydd â'r system hybrid, am eu bod wedi colli rhannau o'r drafodaeth. Nodwyd bod y Swyddogion TGCh wedi cael gwybod am y problemau a oedd wedi codi yn ystod y cyfarfod.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2023**

**Cadeirydd:_______________**

**Dyddiad:_______________**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 7

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Sy'n Dysgu** |
| **DYDDIAD:** | **31 Gorffennaf 2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2023/24** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**
Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Dynodiad:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 21/07/2023 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2022/23

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Ffyniannus*** | | | |
| 22 Mehefin 2023 | Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd (o'r gofrestr risgiau)<br><br>Creu Grwp Gweithio Gwasanaeth Gwastraff<br><br>Diweddariad ar lwyth achosion Rheoli Datblygu a Gorfodi | Phil Jones<br>Gwahoddiad i Adnoddau Naturiol Cymru<br><br>Rhodri Llwyd<br><br>Russell Hughes Pickering | O'r gofrestr risgiau<br><br>Adolygiad<br><br>Monitro |
| 31 Gorffennaf 2023 | Adroddiad ar yr opsiwn o ganiatáu 2 awr o barcio am ddim cyn 11am (o'r cyfarfod cyllideb)<br><br>Gwasanaeth Gaeaf<br><br>Trafodaeth ar gynllunio a ffosffadau Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) | <br><br><br><br>Gwahoddiad i Dwr Cymru | Argymhellion<br><br>Adolygiad<br><br>Monitro |
| 23 Hydref 2023 | Adolygu Polisi Rheoli Harbyrau | Gerwyn Jones | Polisi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18 Rhagfyr 2023 | | | |
| 23 Chwefror 2024 | Cyllideb | | |
| 18 Mawrth 2024 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | Awgrymiadau:<br>Effaith cynlluniau a ariennir gan grant – beth yw'r effaith, pa mor dda mae arian yn cael ei dynnu i lawr<br><br>Defnydd o le – sut allwn ni ei wneud yn fwy bywiog, cynyddu incwm<br><br>CDLI<br><br>Adolygu strategaeth toiledau cyhoeddus | | |